# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Tachwedd 2015

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

## Preifat

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.00)

### 2 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17: Trafod yr ymateb

(09.00 - 09.15) (Tudalennau 1 - 6)

Papur 1 -Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Dirprwy Lywydd

### 3 Swyddfa Archwilio Cymru: Trafod adroddiad drafft

(09.15 - 09.45) (Tudalennau 7 - 27)

Papur 2 - Adroddiad drafft

### 4 Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru): Trafod adroddiad drafft

(09.45 - 10.30) (Tudalennau 28 - 112)

Papur 3 - Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Papur 4 - Adroddiad drafft

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd

4 Tachwedd 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor ynghylch Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-2017, a gyhoeddwyd ar 16 Hydref 2015. Mae'r Comisiwn yn cytuno â holl argymhellion y Pwyllgor Cyllid; mae ein hymateb manwl i'w weld yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar gynnig cyllideb y Comisiwn wythnos nesaf. Yn y cyfamser, os hoffai'ch Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Y Dirprwy Lywydd**

Amg.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6232
Ebost/Email: david.melding@assembly.wales

**Argymhellion y Pwyllgor Cyllid**

***Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed mewn cysylltiad â pharatoi'r Cynulliad ar gyfer y pwerau cyllidol a deddfwriaethol newydd, gan gynnwys pa swyddi newydd sydd wedi cael eu creu i fwrw ymlaen â hyn fel y'u nodwyd yn nogfen y gyllideb ddrafft.***

Cytuno.

Rhan hanfodol o gylch cynllunio busnes y Comisiwn yw ymarfer i gyfateb adnoddau staffio ag angen. Mae'r asesiad cynllunio capasiti blynyddol hwn yn llywio penderfyniadau ar greu unrhyw swyddi newydd ac yn sicrhau bod gennym y staff cywir yn y meysydd cywir. Yn amlwg, mae'r cyfrifoldebau cyllidol a ddaw yn y Cynulliad nesaf, ynghyd â goblygiadau Bil Cymru sydd ar y gweill a realiti rhaglen ddeddfwriaethol heriol, wedi bod, ac yn parhau i fod, yn ganolog i'r gwaith hwn o gynllunio capasiti. Rydym ar hyn o bryd yng nghanol adolygiad y flwyddyn hon o'n cynlluniau capasiti. Felly, mae'n bosibl y caiff yr ychwanegiadau staffio a ddisgrifir isod (y mae staff eisoes wedi cael eu recriwtio ar eu cyfer) eu haddasu ymhellach.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2016-17 yn ariannu 13 o swyddi ychwanegol ar hyn o bryd o'i gymharu â 2015-16. O'r rhain, mae swyddi sy'n berthnasol i argymhelliad y Pwyllgor wedi cael eu rhoi ar waith i wella:

- cymorth clercio ar draws ystod o bwyllgorau polisi/deddfwriaeth a'r pwyllgorau Cyllid, Cyfrifon Cyhoeddus a Safonau;
- y ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y Swyddfa Gyflwyno;
- arbenigedd y Gwasanaeth Ymchwil o ran craffu ariannol; ac
- arbenigedd cyfreithiol i gefnogi craffu deddfwriaethol.

Bydd y swyddi ychwanegol eraill yn y Gwasanaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau, yn yr adran Adnoddau Dynol (yn benodol i wella hyfforddiant a chymorth staff) ac yn y tîm sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun pensiwn yr Aelodau.

Yn ogystal â gwella staffio, mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth berthnasol. Mae rhaglen friffio ar oblygiadau'r cyfrifoldebau cyllidol newydd a Bil Cymru sydd ar y gweill eisoes wedi cychwyn ar gyfer Aelodau cyfredol, eu staff a staff y Comisiwn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith briffio yn cael ei wneud gan dîm arbenigol, sy'n gweithredu fel canolfan o arbenigedd staff ac yn gwella gallu mewnol y Comisiwn mewn perthynas â newid cyfansoddiadol. Mae'r tîm newid cyfansoddiadol ei hun wedi cael mwy o staff yn 2015. Rydym hefyd yn cryfhau cysylltiadau â Senedd yr Alban i ddysgu o'i phrofiad o arfer pwerau cyllidol newydd.

Rhywbeth arall sydd hefyd yn berthnasol i argymhelliad y Pwyllgor yw'r rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r Aelodau a'u staff. Bydd rhan allweddol o'r rhaglen y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr

Aelodau a etholir ym mis Mai yn barod i weithredu o dan y trefniadau a fydd yn codi o bwerau ariannol newydd y Cynulliad a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf. Bydd y cymorth sydd ar gael yn adeiladu ar y rhaglen craffu ariannol a gyflwynir yn y Pedwerydd Cynulliad a bydd yn cynnwys hyfforddiant a sesiynau briffio arbenigol sydd wedi'u targedu.

***Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad egluro'r hyn sy'n digwydd i'r arian nad yw'n cael ei ddefnyddio gan Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau.***

Cytuno.

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth y Cynulliad yn 2010, sy'n gyfrifol am y penderfyniadau am gyflog a chostau eraill Aelodau'r Cynulliad. Mae'r Bwrdd yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad fel nad oes gan yr Aelodau unrhyw rôl uniongyrchol wrth bennu eu cyflogau eu hunain, eu staff na'r symiau y gellir eu had-dalu am gostau swyddfa a chostau eraill. Caiff penderfyniadau'r Bwrdd eu cyhoeddi yn ei Benderfyniad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn ôl statud, cyfrifoldeb y Comisiwn yw sicrhau'r cyllid angenrheidiol i dalu'r costau sy'n deillio o'r Penderfyniad.

Felly, mae'r gyllideb ar gyfer 2016-17 wedi ei gosod mewn dwy ran benodol:

- £36.5 miliwn ar gyfer darparu gwasanaethau'r Comisiwn, sy'n wynebu toriad o 1.5% mewn termau real o'i gymharu â 2015-16;
- £15.5 miliwn ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer tâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad.

Rydym yn nodi manylion gwariant gwirioneddol yn ein Hadroddiad a'n Cyfrifon Blynyddol bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am danwariant yn ogystal â chanlyniadau a gyflawnwyd. Yn y dyfodol, er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd, ac fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor, byddwn yn nodi'r hyn sydd wedi digwydd i unrhyw arian nad yw Aelodau'r Cynulliad wedi'i dynnu i lawr mewn perthynas â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau. Bydd hyn yn adlewyrchu'r penderfyniadau gwariant gan Fwrdd Buddsoddi ac Adnoddau'r Comisiwn, sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyllidebau'r Comisiwn yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn a sicrhau gwerth am arian. Bydd unrhyw arian sy'n cael ei nodi fel arian dros ben o safbwynt gofynion y Comisiwn yn cael ei ddychwelyd i Floc Cymru trwy Gyllideb Atodol.

***Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn gyhoeddi manylion yr amcangyfrif o'r costau cyn yr etholiad, gan nodi sut y disgwylir defnyddio'r £2.5 miliwn y gofynnir amdano.***

Cytuno.

Ar gyfer 2016-17, rydym yn ceisio cyllideb o £ 2.5 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad i dalu costau ein rhwymedigaethau statudol i Aelodau nad ydynt yn cadw eu seddi, naill ai oherwydd eu bod yn rhoi'r gorau neu oherwydd eu bod yn colli. Mae'n cynnwys arian i dalu'r gost o ddarparu offer a chymorth TGCh i Aelodau newydd, unrhyw ofynion o ran swyddfeydd y mae angen talu amdanynt, a'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r prosesau hyn.

Nid oes gennym unrhyw ffordd o wybod beth fydd canlyniad yr etholiad nesaf, ond gan fod nifer o Aelodau eisoes wedi cyhoeddi eu bod yn bwriadu rhoi'r gorau a bod etholiadau'r DU yn awgrymu y gallai fod newid mawr i'r drefn wleidyddol, rydym wedi gosod y gyllideb ar y dybiaeth y bydd newid o 50% er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael ar gyfer costau posibl.

Dyma'r manylion:

| | |
|---|---|
| Grantiau Ymaddasu'r Aelodau | £900,000 |
| Dileu swyddi Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | £450,000 |
| Cyflogau a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfnod dirwyn i ben | £650,000 |
| Gwasanaethau ar gyfer Aelodau newydd (TGCh, swyddfeydd ac ati) | £500,000 |
| **Cyfanswm** | **£2,500,000** |

Mae'r gyllideb hon wedi'u neilltuo ar gyfer costau'r etholiad yn unig a bydd unrhyw arian sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei ddychwelyd i Floc Cymru drwy Gyllideb Atodol. Bydd manylion y gwariant gwirioneddol yn cael eu nodi'n llawn i Aelodau'r Cynulliad pan fyddant yn ystyried y Gyllideb Atodol ac yn ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar gyfer 2016-17.

***Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r problemau sy'n gysylltiedig â gwefan y Cynulliad gael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth, a hoffai dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnir yn y maes hwn cyn diwedd y Cynulliad.***

Cytuno.

Mae gwella gwefan y Cynulliad wedi bod yn flaenoriaeth i ni ers i ni ddod â gwasanaethau TGCh y Comisiwn yn fewnol ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Comisiwn yn cynnal adolygiad trylwyr o'r wefan ac mae wedi cwblhau'r cam cyntaf o osod system rheoli cynnwys newydd i ddarparu gwybodaeth a gwella'r gallu i chwilio.

Yn ystod y cam newid presennol, bydd gwelliannau tymor byr eraill yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys:

- hafan newydd i'r wefan i wneud Busnes y Cynulliad yn fwy amlwg a'u gwneud yn haws i weld newyddion a gwybodaeth gyfredol;
- cynlluniau newydd ar gyfer gwybodaeth y pwyllgorau, gan gynnwys gosod fideo a delweddau;
- gwelliannau pellach i'r gallu chwilio cyffredinol; a

- mwy o ddata a gwybodaeth ar gael ar-lein ac mewn fformat ar gyfer eu hailddefnyddio.

Bydd y trydydd cam yn gofyn i ni wneud newidiadau trefniadol i'r ffordd rydym yn llunio, yn rheoli ac yn cyhoeddi gwybodaeth, yn ogystal â newid sut mae data'n cael ei storio. Mae hyn yn dasg sylweddol i'r Comisiwn ond mae'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer hyn. Ein nod yw trawsnewid y ffordd rydym yn llunio, yn defnyddio ac yn darparu holl wybodaeth y Cynulliad er mwyn ei gwneud yn haws i bawb chwilio am y wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi, ac iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon.

Rydym eisiau cael ein cydnabod fel senedd agored, hygyrch a hawdd i ymgysylltu â hi. Mae'r wefan yn rhan bwysig o hynny, felly mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau bod y wefan yn darparu'r hyn y mae ei angen ar yr Aelodau a'r cyhoedd.

Byddwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid ar hynt y gwaith o wella'r wefan cyn diwedd y Cynulliad hwn.

***Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r adolygiad o'r cynllun peilot geisio sicrhau na fydd unrhyw newidiadau a wneir yn effeithio ar ansawdd Cofnod y Trafodion.***

Cytuno.

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn ymwybodol y cychwynnodd y Comisiwn adolygiad yn 2014 i ymchwilio i unrhyw gyfleoedd newydd ar gyfer sut rydym yn cofnodi'r trafodion, gan gynnwys sut y gellid defnyddio hyn i wella ymgysylltiad a dealltwriaeth o waith y Cynulliad. Cwblhawyd yr adolygiad yn gynharach eleni ac mae cynigion ar gyfer y dyfodol wrthi'n cael eu datblygu. Ein nod yw sicrhau bod y Cofnod ar gael:

- yn gynt, yn hytrach na'i gyhoeddi ar ôl 24 awr;
- mewn fformat hygyrch fel ei fod yn haws ei chwilio; ac
- mewn fformat sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ei ailddefnyddio, gan nad yw'r feddalwedd bresennol yn caniatáu copïo a gludo.

Un gwelliant pwysig a gyflwynwyd ym mis Ionawr oedd newid yr arddull golygu fel bod y cofnod ysgrifenedig a'r cofnod clyweledol ar Senedd TV yn cyd-fynd yn agosach â'i gilydd. Ynghyd â gwelliannau eraill, rydym am wneud Cofnod y Trafodion yn rhan annatod o'n strategaeth gyfathrebu i wneud ein trafodion yn fwy tryloyw, fel bod pobl Cymru yn deall yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei drafod ac yn penderfynu arno. Gyda hyn mewn golwg, bydd gofyn i Gomisiwn y Cynulliad ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

Rydym wedi ystyried arbedion effeithlonrwydd drwy gydol y prosiect, a lle mae arbedion wedi cael eu gwneud, mae'r arian wedi cael ei ail-fuddsoddi i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr. Cafodd y gwaith o logio'r Cyfarfod Llawn ei atal dros dro fel peilot yn ystod yr hanner tymor a ddaeth i ben ar 23

Hydref.  Yr arwyddion cynnar yw na fu'r arbedion amser a welwyd, a ail-fuddsoddwyd i sicrhau bod mwy o destun dwyieithog ar gael yn gynt, yn niweidiol i ansawdd y Cofnod (er y bu cynnydd bach yn y nifer o weithiau y nodwyd "anghlywadwy" pan wnaed sylwadau ymylol lle nad oedd modd adnabod yr Aelod).  Bydd y Comisiwn yn parhau i sicrhau nad yw unrhyw arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn peryglu ansawdd Cofnod y Trafodion.

***Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn presennol a Chomisiwn y Pumed Cynulliad barhau i roi blaenoriaeth i weithio tuag at dargedau cynaliadwyedd heriol yn arwain at 2021.***

Cytuno.

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth y Pwyllgor Cyllid i'n targedau cynaliadwyedd uchelgeisiol.  Mae ein Cynllun Rheoli Carbon diweddaraf yn gosod targedau heriol i leihau ôl troed carbon y Comisiwn gan 30% pellach (o'i gymharu â llinell sylfaen 2012/13) erbyn 2021.

Trwy gyfrwng y Blaengynllun Gwaith Ystadau deng mlynedd, rydym yn cynllunio ac yn blaenoriaethu gwaith i wella'r ystâd a buddsoddi yn adeiladwaith ein hadeiladau gan ddefnyddio technolegau newydd fforddiadwy ac ynni adnewyddadwy.  Mae'r dewisiadau buddsoddi hyn yn cyfrannu at wella cynaliadwyedd a lleihau ein hôl troed carbon.

Bydd gwneud y gostyngiad pellach o 30% yn wirioneddol heriol o ystyried ein bod eisoes wedi gwneud gostyngiad o 35% mewn allyriadau ynni ers 2008-09 a bod llawer o'r 'camau cyflym ymlaen' wedi cael eu gwireddu.  Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ymchwilio i atebion arloesol ac effeithiol i wella ein perfformiad cynaliadwyedd, a'u mabwysiadu.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Tachwedd 2015

Annwyl Jocelyn,

Yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyllid ar 21 Hydref mewn perthynas â Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), ymrwymais i ddarparu gwybodaeth bellach ynghylch Adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac i adolygu'r cofnod ac egluro'r sefyllfa bresennol mewn trafodaethau â CThEM ynghylch rheoli'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT). O ran casglu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT), cyfeiriais at lythyr y Cynghorydd Shotton ynghylch ymateb llywodraeth leol i'r gwahoddiad i ystyried casglu trethi datganoledig ac felly amgaeaf gopi er gwybodaeth.

Fe gadarnhawyd hefyd, yn fy Natganiad Ysgrifenedig ym mis Mehefin eleni ac wrth imi fynychu'r Pwyllgor, y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y gwaith i sefydlu trefniadau casglu a rheoli. Mae'r llythyr hwn yn gwireddu'r ymrwymiad hwnnw.

**Craffu ar Awdurdod Cyllid Cymru gan y Cynulliad**

Wrth drafod sut y gallai'r Cynulliad fynd ati i graffu ar Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn y dyfodol crybwyllais yn fras adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Tynnais sylw at hyn am fod yr adran yn cyflwyno pwerau eang i'r Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i berson fod yn bresennol i roi tystiolaeth neu i gynhyrchu dogfennau. Gall y pwerau gael eu harfer gan y Pwyllgor Archwilio neu'r cyfryw bwyllgor arall ag y bydd y Cynulliad yn ei awdurdodi yn benodol (trwy reolau sefydlog neu fel arall).

Crybwyllais hefyd fod Bil Casglu a Rheoli Trethi (y Bil) yn cynnwys sawl mesur sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cynulliad i'w helpu i graffu ar ACC. Yn benodol, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol gosod Siarter Safonau a Gwerthoedd, [adran 25], cynllun corfforaethol [adran 26], adroddiad blynyddol [adran 27], cyfrifon blynyddol [adran 28] a datganiad trethi blynyddol [adran 29] ACC yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad. Hefyd, gall cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Gweithredol fel swyddog cyfrifyddu ACC gynnwys cyfrifoldebau sydd arnynt i'r Cynulliad neu un o bwyllgorau'r Cynulliad [adran 32].

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.



We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O’u cymryd ynghyd mae’r darpariaethau hyn yn galluogi’r Cynulliad i fynd ati i graffu ar yr ACC, ar wahân i Weinidogion Cymru. Er hynny nid yw’r Bil yn pennu sut y dylai’r Cynulliad graffu ar ACC. Mater i’r Cynulliad yw penderfynu ar y trefniadau megis pa Bwyllgor ddylai fynd ati i graffu. Nid mater i Lywodraeth Cymru ei ragnodi mewn deddfwriaeth yw hyn. Mae hyn yn cydymffurfio â Deddfau eraill y Cynulliad, megis Deddf Archwilio (Cymru) 2013 nad yw’n cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy’n ymwneud â chraffu ar Swyddfa Archwilio Cymru gan y Cynulliad, mewn ymateb i argymhellion yn ei adroddiad Cyfnod 1.

**Siarter**

Rwyf o’r farn bod cyflwyno Siarter Safonau a Gwerthoedd [adran25] yn ddull priodol o hybu ymddygiadau a safonau cadarnhaol ar ran ACC a threthdalwyr. Mae’r geiriad arfaethedig yn yr adran hon o’r Bil yn gyson â dull gweithredu presennol CthEM, ac yn nodi’r safonau gweinyddu y mae ACC yn bwriadu eu dilyn a’i gwneud yn glir i’r cyhoedd sut y gall ddisgwyl cael ei drin gan ACC.

Ni fwriedir i’r Siarter orfodi rhwymedigaethau gweithdrefnol neu ymarferol ar ACC yn ychwanegol ar y rhai sy’n cael eu gorfodi gan y Bil ei hun. Mater i Ombwdsmon Gwasanaethu Cyhoeddus Cymru, yn hytrach na’r Llysoedd neu Dribiwnlysoedd, fydd ystyried unrhyw anghydfod rhwng trethdalwr ac ACC ynghylch cydymffurfio â’r Siarter.

Trafodwyd yn y Pwyllgor a ddylai ACC a threthdalwyr *anelu* at y safonau a’r ymddygiadau a nodir ynddi (fel sy’n wir yn achos Siarter CThEM) neu a ddylid *disgwyl iddynt lynu* at y safonau a’r ymddygiadau hynny. Rwyf yn hapus i gnoi cil ar y pwynt ymhellach a byddaf yn ystyried diwygio’r geiriad yng nghyfnod 2.

**Gwelliannau i’r Bil**

Roeddwn hefyd am gadarnhau’r gwelliant penodol a grybwyllais yn y Pwyllgor, yr wyf yn bwriadu ei gyflwyno yng nghyfnod 2. Mae hwn yn ymwneud â’r pŵer Cyfarwyddiadau Cyffredinol [adran14 (6)] o’r Bil lle’r wyf yn cynnig dileu’r cafeat er mwyn i’r holl gyfarwyddiadau gael eu cyhoeddi. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliant yn rhoi pŵer i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi am archwilio datganiad trethi.

**Dewisiadau Dirprwyo**

Cafwyd cryn drafodaeth yn y pwyllgor am y dewisiadau dirprwyo posibl yn y dyfodol a’r dull gweithredu ar gyfer hyn.

Fel y trafodwyd o’r blaen, mae Llywodraeth Cymru’n arwain ar bolisi a deddfwriaeth ym maes trethi. Mae’r Bil yn cadarnhau y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu rhagnodi mewn rheoliadau i bwy y gallai ACC ddirprwyo ei swyddogaethau, yn gwneud y penodiadau anweithredol i fwrdd ACC ac yn cymeradwyo Cynllun Corfforaethol ACC.

Mae’n bwysig ailadrodd mai casglu a rheoli trethi datganoledig yw prif rôl ACC. Bydd ACC yn gyfan gwbl atebol am y swyddogaethau penodol fel y’u nodir yn adran11 o’r Bil. Bydd ACC yn cadw cyfrifoldeb cyfreithiol dros arfer ei swyddogaethau a’r disgresiwn ynghylch a ddylai ddirprwyo ei swyddogaethau, am ba hyd ac i ba raddau. Gall ACC amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyaethau y mae wedi’u gwneud ar unrhyw amser. Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn effeithio ar gyfrifoldeb ACC dros ymarfer y swyddogaeth honno.

Mater i Lywodraeth Cymru nesaf fydd rhagnodi mewn rheoliadau, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad, i bwy y gallai ACC ddirprwyo ei swyddogaethau yn y pen draw.

Mater i ACC wedyn fydd ystyried pa swyddogaethau y gallai eu dirprwyo, ffurf y ddirprwyo a sut y bydd yn monitro perfformiad y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau ar ei ran.

**Trefniadau Casglu a Rheoli**

Mae'r trefniadau a nodir isod wedi'u llunio ar sail trafodaethau manwl a pharhaus â'r partneriaid a ffefrir gennyf, sef HMRC a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyhoeddais ym mis Mehefin eleni y byddai Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn gweithio gyda CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru i gasglu a rheoli Treth Trafodiadau Tir (LTT) a Threth Gwarediadau Tirlenwi (LDT). Y ffordd ymlaen y byddwn i'n ei ffafrio yw bod CThEM yn cynnig cyfleusterau i gyflwyno taliadau a ffurflenni Treth Trafodiadau Tir sydd wedi'u llenwi ar bapur ac ar-lein, ac yn ymgymryd â'r gwaith trafodiadau a chydymffurfio arferol. ACC fydd yn ymgymryd â'r gwaith gorfodi, gwrth-osgoi a chydymffurfio cymhleth ar gyfer Treth Trafodiadau Tir. ACC fydd hefyd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau casglu a rheoli ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â'r gwaith cydymffurfio a gorfodi.

Byddai'r holl ddata a gwybodaeth ynghylch trethi datganoledig Cymru yn eiddo i ACC, a byddai'n cael ei ddarparu ar wahân er mwyn i ACC allu eu ddefnyddio mewn gwaith cydymffurfio cymhleth, adroddiadau perfformiad a dadansoddiadau eraill (er enghraifft, rhagolygon). Cyfeiriodd y Pwyllgor at gysylltiad agos rhwng y trethi Cymreig a'r trethi sydd heb eu datganoli ond, fel y cadarnhawyd yn y Pwyllgor, nid fel hyn y byddai pethau a byddai'r trethi Cymreig yn cael eu cadw ar wahân i'r trethi annatganoledig eraill a reolir gan CThEM.

Bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl i ACC ddatblygu cysylltiadau cadarn a chydweithredol â chyrff y bydd yn dirprwyo swyddogaethau iddynt, ac ymrwymiad i weithio mewn ffyrdd agored. Yn benodol bydd rhaid i ACC gyhoeddi gwybodaeth am y trefniadau dirprwyo, a byddem yn disgwyl i hyn gynnwys safonau gwasanaeth cytunedig. Bydd ACC yn gwneud yn siŵr bod trefniadau casglu a rheoli trethi datganoledig Cymru yn bodloni safonau'r Gymraeg sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg, a'r ymrwymiadau yn ei Siarter Safonau a Gwerthoedd.

Mae rhagor o fanylion am gyfrifoldebau a rolau arfaethedig ACC, CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gasglu a rheoli trethi datganoledig wedi'u nodi isod.

**Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)**

Mae'r gwaith paratoi i sefydlu ACC wedi dechrau. Bydd Cyfarwyddwr Cyflawni ACC (Prif Swyddog Gweithredu) yn cael ei benodi yn ystod haf 2016, a rhagwelir y bydd Prif Weithredwr yn cael ei benodi yn ystod hydref 2017. Bydd y ddau yn cael eu penodi i'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Yn unol â'r Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), bydd ar ACC angen strwythur llywodraethu i sicrhau bod manylion a gwybodaeth trethdalwyr yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol. Mae drafft presennol y Bil yn darparu ar gyfer gwahanol aelodaeth: dim llai na 3, a dim mwy nag 8, o aelodau Bwrdd Anweithredol gan gynnwys y Cadeirydd. I sicrhau bod gan ACC y lefel angenrheidiol o arbenigedd ar y Bwrdd hwn, disgwyliaf i'r penodiadau hyn fod yn rhai â thâl. Rwyf hefyd yn rhagweld y gallai'r Bwrdd gynnwys 5 aelod Anweithredol – heb gynnwys y Cadeirydd – o fis Ebrill 2018 ymlaen, o ystyried y trethi sydd wedi'u datganoli. Yn unol â sylwadau'r Pwyllgor a rhanddeiliaid allanol, disgwyliaf y bydd y Llywodraeth nesaf yn dymuno sicrhau bod gan y Bwrdd amrywiaeth o arbenigedd proffesiynol ac arbenigedd ym maes trethi yn ogystal â sicrhau bod y Bwrdd yn gynrychiadol o'r gymuned, gan gynnwys cydbwysedd priodol rhwng y rhywiau. Disgwyliaf y bydd y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd

wedi dechrau ar eu swyddi erbyn hydref 2017. Rwyf hefyd yn rhagweld y bydd angen i'r Bwrdd ymrwymo i gyfarfod yn fwy rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau bod y broses o newid yn digwydd yn effeithiol ym mis Ebrill 2018.

Bydd disgwyl i ACC gyflawni ei swyddogaethau corfforaethol ehangach i safon uchel, gan gynnwys rhoi gwybodaeth am berfformiad a mathau eraill o wybodaeth i Weinidogion a'r Cynulliad ar gyfer ei holl gyfrifoldebau. Rhagwelir y bydd rhaid iddo gasglu Treth Gwarediadau Tirlenwi ac ymgymryd â gwaith cydymffurfio llawn ar gyfer achosion Treth Trafodiadau Tir mwy cymhleth. Bydd angen darpariaeth TGCh arno hefyd er mwyn gwneud yn siŵr bod modd iddo ymgymryd â'i holl swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol. Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y byddai gan ACC rhwng 25 a 32 o aelodau staff.

Mae'n siŵr y bydd gan ACC gostau gweithredu eraill, gan gynnwys costau archwilio a rhannu data ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Chofrestrfa Tir Ei Mawrhydi. Mae angen gwneud rhagor o waith i asesu a chyfrifo'r costau hyn.

**Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)**

Mae CThEM wedi bod yn rhan adeiladol o drafodaethau â'm swyddogion, ac yn awyddus i ysgwyddo'r rôl hon i weinyddu trethi datganoledig Cymru.

Mae ganddynt gyfoeth o wybodaeth a phrofiad ym maes trethi. Casglodd CThEM bron £11bn o dan Dreth Dir y Dreth Stamp (SDLT) yn 2014-15, gan drin a thrafod bron filiwn o drafodiadau. Mae ganddynt swyddfa brosesu a rheoli gynhwysfawr yn Birmingham sy'n ymwneud â'r holl elfennau trafodiadol o ran casglu SDLT (yn seiliedig ar eu system TGCh bresennol), yn ogystal â mynd i'r afael â materion mwy cymhleth a heriol o ran osgoi a chydymffurfio, a chreu cysylltiadau â threthi eraill yn y DU.

Mae dros 96% o ffurflenni Treth Dir y Dreth Stamp yn cael eu cyflwyno ar-lein ynghyd â dros 60% o'r taliadau, ac mae'r gyfran hon yn cynyddu. Byddai ACC yn elwa o'r gwelliannau hyn i'r gwasanaeth. Mae CThEM wedi dweud yn bendant y byddai ffurflenni presennol Treth Dir y Dreth Stamp yn cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod y ffurflen Treth Trafodiadau Tir yn bodloni anghenion penodol Llywodraeth Cymru ac ACC. Byddent yn defnyddio'r staff profiadol sy'n gweithio ar Dreth Dir y Dreth Stamp i wneud y gwaith gweinyddu (er enghraifft prosesu ffurflenni, mynd ar drywydd gwallau). Byddai'r holl ddata yn dal yn eiddo i ACC: bydd ACC yn defnyddio'r wybodaeth hon i ymgymryd â gwaith osgoi a chydymffurfio mwy cymhleth.

Ochr yn ochr â hynny mae CThEM wedi cynnig cyflwyno Tîm Trethi Cymru, a fyddai'n dîm bach a phenodol ar wahân. Gallai'r tîm gael ei leoli yng Nghymru, a'i gydleoli ag ACC o bosibl. Byddai'r tîm hwn yn sicrhau bod cysylltiad agos rhwng CThEM ac ACC yng Nghymru ar faterion osgoi a chydymffurfio mwy cymhleth o ran Treth Trafodiadau Tir, a byddai'n trosglwyddo gwybodaeth ac arbenigedd. Gallai'r tîm hwn arwain ar ganllawiau ac ymholiadau technegol ynghylch Treth Trafodiadau Tir, dadansoddi risg a chydweithio ag ACC, gan fanteisio ar eu profiad yn swyddfa CThEM ym Mhorthmadog.

Mae rhanddeiliaid - a'r gymuned fusnes yn benodol - wedi mynegi cefnogaeth yn gyson i weithio gyda CThEM i gasglu Treth Trafodiadau Tir er mwyn sicrhau bod y broses o newid yn digwydd yn hwylus ym mis Ebrill 2018. Y flaenoriaeth yn awr yw mynd ati i ddeall yn well pa safonau gwasanaeth fydd eu hangen ar gyfer y berthynas hon, a gwneud yn siŵr ein bod yn dod o hyd i'r ateb mwyaf cost-effeithiol.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain y gwaith o drwyddedu safleoedd tirlenwi, felly mae ganddynt eisoes wybodaeth helaeth am y sylfaen drethu ynghyd â chysylltiadau â gweithredwyr safleoedd tirlenwi. Byddai gwaith cydymffurfio ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi yn rhywbeth newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru, a rhagwelir y byddai angen nifer fach o staff ychwanegol Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â'r gwaith hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru dros y cyfnod sydd ar droed i wneud yn siŵr bod y gwaith cydymffurfio ac osgoi ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei reoli'n briodol, a'n bod yn manteisio ar y cyfleoedd i sicrhau bod y gwaith o reoli'r safleoedd gwastraff yng Nghymru yn fwy cydlynol ac effeithiol.

**Y camau nesaf**

Yn Atodiad A nodir fy amcan cychwynnol o gostau sefydlu a gweithredu trefniadau casglu a rheoli trethi datganoledig   Amcangyfrifir y bydd y costau sefydlu rhwng £4.8m a £6.3m ar gyfer 2016/17 a 2018/19.  O ran y costau gweithredu, amcangyfrifir y bydd y costau rhwng £2.8m a £4m bob blwyddyn, gan ddechrau yn 2018/19.

Ar hyn o bryd rwyf yn rhoi ystod yn hytrach na ffigur penodol i adlewyrchu'r ansicrwydd sy'n parhau ynghylch rhai o elfennau'r trefniadau hyn.   Bydd yr amcangyfrif hwn yn fanylach yn dilyn trafodaethau â CTHEM a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran safonau gwasanaeth ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, a materion TGCh yn benodol.  Dylid nodi hefyd y bydd y Llywodraeth nesaf yn cyflwyno dau ddarn arall o ddeddfwriaeth ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, ac mae'n bosibl y bydd goblygiadau o ran costau i'r penderfyniadau polisi y cytunir arnynt wrth basio'r biliau hyn.

Gan nad yw Llywodraeth y DU yn fodlon trosglwyddo'r arian angenrheidiol ar gyfer y maes gwaith newydd hwn mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr ein bod yn datblygu gwasanaeth sy'n bodloni anghenion trethdalwyr Cymru yn ogystal â sicrhau gwerth am arian yn y tymor byr. Bydd rhaid hefyd sicrhau hyblygrwydd os caiff rhagor o drethi eu datganoli i Gymru.

Rwyf yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am y costau drwy gydol taith y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ac ar ôl hynny.  Rhagwelaf y bydd Llywodraeth nesaf Cymru am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau â CThEM a Cyfoeth Naturiol Cymru yn fuan ar ôl etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf.



**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business

## Amcangyfrif o gostau sefydlu a gweithredu trefniadau casglu a rheoli trethi datganoledig

| **Amcangyfrif o'r costau sefydlu ar gyfer 2016/17-2018/19** | | |
|---|---|---|
| **£k** | Isel | Uchel |
| **Llywodraeth Cymru – Staff**<br>*(Costau staff gros yn cynnwys cyflogau a gorbenion)* | 1,700 | 2,000 |
| **Llywodraeth Cymru – Heb fod yn ymwneud â'r Staff**<br>*(Yn gynnwys datblygu TGCh, recriwtio staff a'r Bwrdd)* | 550 | 1,200 |
| **Cyllid a Thollau EM – Staff a Heb fod yn ymwneud â'r Staff**<br>*(Yn cynnwys datblygu TGCh a gweithredu'r prosiect)* | 2,500 | 2,970 |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru – Staff a Heb fod yn ymwneud â'r Staff**<br>*(Yn cynnwys datblygu TGCh a gweithredu'r prosiect)* | 100 | 180 |
| **Cyfanswm** | **4,850** | **6,350** |

| **Amcangyfrif o'r Costau Gweithredu Blynyddol** | | |
|---|---|---|
| **£k** | Isel | Uchel |
| **Awdurdod Cyllid Cymru – Staff**<br>*(Costau staff gros yn cynnwys cyflogau a gorbenion)* | 1,400 | 1,800 |
| **Awdurdod Cyllid Cymru – Heb fod yn ymwneud â'r Staff**<br>*(Y Bwrdd, Archwilio, TGCh, llety ac ati)* | 400 | 840 |
| **Cyllid a Thollau EM – Staff a Heb fod yn ymwneud â'r Staff**<br>*(Prosesu Treth Trafodiadau Tir, darpariaeth TGCh a Thîm Trethi Cymru)* | 840 | 1,000 |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru – Staff a Heb fod yn ymwneud â'r Staff**<br>*Tîm Cydymffurfio a Gorfodi Treth Gwarediadau Tirlenwi)* | 200 | 315 |
| **Cyfanswm** | **2,840** | **3,955** |

**Our Ref/Ein Cyf:**
**Your Ref/Eich Cyf:**
**Date/Dyddiad:** 26th March 2015
**Please ask for/Gofynnwch am:** Mari Thomas
**Direct line/Llinell uniongyrchol:** 29 2046 8632
**Email/Ebost:** mari.thomas@wlga.gov.uk

WLGA • CLlLC

Jane Hutt AM
Minister for Finance and Government Business
Welsh Government
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Minister,

**Management and Collection of Devolved Taxes**

An essential part of the WLGA's vision is that local government should have maximum freedom and flexibility to control the resources needed to deliver services locally to communities. The tax raising powers which local government already possesses are a key feature of the resource landscape at the local level and are a key element in our vision for greater local control of resources.

The WLGA would argue that in the new tax management environment, local democratic responsibility for taxation remains a key feature. Just as there is recognition in the consultation proposals that the new devolved taxes should be brought together, there must equally be recognition of the link between nationally devolved taxes and their administration with the management and control of local taxation. Gerry Holtham's recent paper to the Institute of Welsh Affairs[1] recognised the strategic links between locally collected property taxes, newly devolved taxes and taxes that have the potential to be devolved.

The WLGA has welcomed invitations already made to participate in the Tax Advisory Group and our officers are contributing constructively in other fora. We believe that there is a need for Local Government to have a close relationship with the WRA and a means for high level and meaningful interaction with the new body.

Local authorities in Wales are best placed to collect and manage devolved taxes. They already have systems in place to undertake the management and collection of taxes and/or sundry debtor accounts. Local authorities have experienced staff with relevant qualifications from the Institute of Revenues Rating and Valuation (IRRV) who have practical experience in all aspects of collection, minimisation of tax

Steve Thomas CBE
Chief Executive
Prif Weithredwr

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

www.wlga.gov.uk

[1] IWA Senedd Paper 2: Taxation in Wales, Spring 2014 (http://www.iwa.org.uk/en/publications/view/233)



**The WLGA welcomes correspondence in Welsh or English - Mae WLGA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg**
**Printed on recycled paper - Wedi'i argraffu ar bapur eildro**

avoidance, revenue leakage and managing outstanding debt. Experienced staff would ensure a smooth transition and utilising existing systems would keep costs to a minimum.

The track record of local authorities in Wales in collecting taxes and income due is good. Collection rates for council tax are at historic highs. Compared to unitary authorities in England and Scotland collection rates here are higher. Outstanding debt is falling and revenues practitioners are constantly striving to improve their service.

Unfortunately, there are a number of factors that mitigate against local authorities putting forward a proposal to undertake the management and collection of Welsh devolved taxes at the current time:

- The future shape of local government is not yet determined, but the transition process will encompass April 2018 when the Welsh devolved taxes become operational. The degree of uncertainty means that it is extremely difficult for individual authorities to commit to new responsibilities from 2018;

- Timescales have not allowed for the development of a sufficiently robust proposal with all of the consultation that this would require. Councils are currently focused on achieving balanced budgets for 2015-16 and implementing savings plans. The level and scale of cuts that need to be addressed means that there is not the capacity at the senior level required to give this proposition the serious consideration needed within the timescales available;

- A detailed process map needs to be developed which sets out all the steps involved, what can be provided within current systems and what needs to be developed separately;

- Discussions need to take place at an all-Wales level at both political and officer fora to agree whether one or more authorities should seek to provide these services, and which authority(ies) this should be;

- Further work would be required with the authority(ies) to discuss the details of how this might work and to provide robust estimates of the potential costs involved.

It is my understanding that you intend to review the arrangements to collect and manage Welsh devolved taxes after some three to five years of operation, which is a more opportune time for local government to put forward a firm proposal for the provision of these services. This will allow time between now and the review for the detailed planning required for provision of the management and collection of Welsh devolved taxes within local government, and also for the future shape of local authorities to be more certain.

I would emphasise that Local Government wishes to continue working closely with Welsh Government both to share our tax expertise and also to maximise opportunities to allow business intelligence and information to be routinely shared, to ensure that yield is maximised and that the cost of collection is minimised.

Yours sincerely,



Cllr Aaron Shotton
WLGA Finance Spokesperson



**The WLGA welcomes correspondence in Welsh or English - Mae WLGA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg**
**Printed on recycled paper - Wedi'i argraffu ar bapur eildro**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon